Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Plant sydd ar yr ymylon
## Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid

Yn ystod haf 2024, gwnaethom gynnal 2 ddigwyddiad i randdeiliaid er mwyn clywed gan academyddion, arbenigwyr polisi a gweithwyr proffesiynol rheng flaen am faterion sy'n berthnasol i blant coll, plant sy'n destun camfanteisio troseddol, a grwpiau eraill o blant sydd ar yr ymylon. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau allweddol y trafodaethau hynny.

Dyma'r digwyddiadau a gynhaliwyd i randdeiliaid:

- 15 Mai 2024 - canolbwyntio ar blant coll
- 19 Mehefin 2024 - canolbwyntio ar blant sy'n cael eu troseddoli

Roedd y ddau ddigwyddiad yn rhai hybrid (h.y. gyda phobl yn cymryd rhan yn y cnawd ac yn rhithwir). Ceir rhestr lawn o'r rhai a oedd yn bresennol yn atodiad 1.

Barn y rhanddeiliaid y buom yn siarad â hwy yw'r safbwyntiau a nodir yn yr adroddiad hwn. Maent yn ddienw am resymau diogelu anhysbysrwydd. Nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli barn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Mae'r adroddiad hwn yn cyfleu prif bwyntiau'r trafodaethau a gynhaliwyd yn

ystod ein digwyddiadau i randdeiliaid; nid yw'n gofnod gair am air o'r trafodaethau hynny.

# Cynnwys

**1. Grwpiau eraill o blant sydd ar yr ymylon ....................................4**

Plant sy'n mynd ar goll ....................................4

Plant sy'n destun camfanteisio troseddol ....................................9

Grwpiau eraill o blant sydd ar yr ymylon ....................................15

Ymateb i blant sydd ar yr ymylon: themâu cyffredin ....................................16

**2. Plant sy'n agored i gael eu gwthio i'r ymylon ....................................21**

Plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal ....................................21

Plant nad ydynt mewn lleoliad addysg ....................................21

Plant sy'n dioddef o iechyd meddwl gwael ....................................22

Plant niwroamrywiol a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol. ....................................23

**Atodiad A: Rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau i randdeiliaid.................................... 24**

15 Mai 2024 (plant sydd ar goll) ....................................24

19p Mehefin 2024 (plant sy'n cael eu troseddoli) ....................................24

# 1. Grwpiau eraill o blant sydd ar yr ymylon

## Plant sy'n mynd ar goll

### Natur a graddfa

**1.** Amlygodd rhanddeiliaid yn benodol y grwpiau a ganlyn o blant fel rhai sy’n wynebu risg o fynd ar goll:

- Plant â phrofiad o fod mewn gofal (yn enwedig y rhai sydd mewn lleoliadau y tu allan i'r ardal, gan gynnwys yn Lloegr). Dywedodd rhai rhanddeiliaid wrthym fod rhai plant mewn lleoliadau y tu allan i’r ardal yn mynd ar goll er mwyn dychwelyd adref, neu i dreulio amser gyda’u ffrindiau. Eglurodd eraill y gall plant mewn gofal wynebu trafferthion gyda’u lleoliadau, a’u bod yn rhedeg i ffwrdd oddi wrthynt.
- Plant sy’n hysbys i’r gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys y rhai sydd wedi profi trawma yn ystod plentyndod.
- Plant y mae eu perthnasoedd teuluol yn chwalu.
- Plant nad ydynt mewn lleoliad addysg, neu sy'n cael amserlen â llai o oriau.
- Plant sy’n ymgyflwyno â phroblemau ymddygiad.
- Plant niwroamrywiol a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol.

**2.** Roedd cytundeb cyffredinol bod ystod oedran y plant sy'n mynd ar goll yn mynd yn iau. Awgrymodd un rhanddeiliad mai plant rhwng 12 a 14 oed sy’n wynebu’r risg fwyaf. Dywedodd eraill eu bod yn gweld mwy o ferched yn mynd ar goll nag o'r blaen.

**3.** Roedd consensws cyffredinol bod plant sy'n mynd ar goll yn tueddu i wneud hynny fwy nag unwaith.

### Polisi ac arfer

## Data

**4.** Dywedodd rhanddeiliaid wrthym yn gyson fod diffyg data dibynadwy am blant coll.[1] Y rheswm am hyn yw oherwydd nad oes templed adrodd, ac oherwydd bod gwahanol awdurdodau lleol yn diffinio cyfnodau o fynd ar goll yn wahanol ac yn ymateb iddynt yn wahanol .

**5.** Neges allweddol gan randdeiliaid oedd bod plant mewn gofal yn cael eu gorgynrychioli mewn data am gyfnodau o fynd ar goll. Er eu bod yn ddiamau yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r plant sy'n mynd ar goll, mae'r ymateb pan roddir gwybod bod plentyn sy'n derbyn gofal yn mynd ar goll yn tueddu i fod yn llawer mwy ar unwaith a ffurfiol o gymharu â phlant sy'n mynd ar goll o'u teulu. Er enghraifft, efallai y rhoddir gwybod bod plentyn sy'n derbyn gofal wedi mynd ar goll os yw ychydig oriau'n hwyr adref o'i gyrffyw. Gall fod y rheolau o ran rhoi gwybod am blentyn sydd ar goll fod yn arbennig o llym mewn gofal preswyl a phan fo staff asiantaeth ar ddyletswydd. Ar y llaw arall, efallai na fydd teulu plentyn yn rhoi gwybod bod y plentyn wedi mynd ar goll oni bai ei fod ar goll am o leiaf 24 awr.

**6.** Pwysleisiodd rhanddeiliaid wrthym nad yw achosion gormodol o adrodd am gyfnodau o fynd ar goll sy'n cynnwys plant mewn gofal yn broblem ynddo'i hun. Fodd bynnag, ni ddylai llunwyr polisi ganolbwyntio eu holl sylw ar amgylchiadau penodol plant mewn gofal, gan fod y gronfa o blant sy'n mynd ar goll yn llawer ehangach mewn gwirionedd.

**7.** Clywsom y dylai'r diffiniad o gyfnod o fynd ar goll fod yn ddigon hyblyg i gynnwys amgylchiadau gwahanol plant a'r gwahanol risgiau y maent yn eu hwynebu. Ni fyddai o reidrwydd yn ddefnyddiol cael un diffiniad cadarn o blentyn sydd ar goll.

**8.** Clywsom hefyd, hyd yn oed os yw rhai awdurdodau lleol yn casglu data am gyfnodau o fynd ar goll, nad ydynt bob amser yn eu rhannu.

**9.** Roedd rhanddeiliaid yn argymell dull cyson, cenedlaethol o gasglu data er mwyn deall yn well natur a graddfa cyfnodau o fynd ar goll ledled Cymru.

## Ymateb i gyfnod o fynd ar goll

**10.** Pan fo plentyn yn mynd ar goll, clywsom fod dyletswydd i hysbysu'r awdurdod lleol perthnasol, y bwrdd iechyd a'r heddlu lleol. Fodd bynnag, nid yw'r

[1] Er bod Llywodraeth Cymru bellach yn cyhoeddi ystadegau ar blant sy'n mynd ar goll o ofal. Gweler: StatsCymru, 'Plant sy'n mynd ar goll o ofal yn ystod y flwyddyn, yn ôl awdurdod lleol'

ddyletswydd hon yn cael ei chyflawni'n gyson. Mae hyn yn amharu ar ddigonolrwydd yr ymateb aml-asiantaeth i ddigwyddiadau penodol.

**11.** Fodd bynnag, roedd eraill yn anghytuno, ac yn teimlo bod arfer adweithiol aml-asiantaeth yn gymharol slic ac yn gweithio'n dda. Er enghraifft, dywedodd un rhanddeiliad wrthym fod cyfarfodydd aml-asiantaeth rheolaidd yn cael eu cynnal am y plentyn yn dilyn cyfnod o fynd ar goll.

**12.** Eglurodd rhanddeiliaid wrthym fod gan wahanol awdurdodau lleol bolisïau gwahanol ynghylch sut a phryd i ymyrryd â phlant sy'n mynd ar goll. Esboniodd un rhanddeiliad fod gan gartrefi gofal blant o awdurdodau lleol gwahanol, a'u bod felly mewn sefyllfa dda i nodi gwahaniaethau mewn ymarfer o un awdurdod lleol i'r llall. Dywedodd y rhanddeiliad wrthym fod cartrefi gofal yn adrodd bod awdurdodau lleol yn ymateb yn wahanol i gyfnodau o fynd ar goll, ac, yn dibynnu ar yr awdurdod lleol, nad yw staff cartrefi plant yn cymryd rhan yn gyson mewn cyfarfodydd pwysig am blant sy'n wynebu risg yn eu cartref. Mae hyn yn anodd ei ddeall o ystyried mai hwy yw'r rhai sy'n rhoi gofal sylfaenol i'r plentyn.

**13.** Dywedodd rhai rhanddeiliaid wrthym y gall fod yn anodd cadw golwg ar blant sy'n mynd ar goll. Nid yw'n briodol cadw cofnod o blentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant os yw wedi cael sawl cyfnod o fynd ar goll oni bai ei fod wedi wynebu risg sylweddol o niwed yn ystod y cyfnod ei hun. Ac nid oes unrhyw systemau eraill ar waith i gadw golwg ar blant sy'n mynd ar goll yn rheolaidd, yn wahanol i blant mewn achosion sy'n ymwneud â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant.

**14.** Siaradodd un rhanddeiliad yn gadarnhaol am bolisi gan Heddlu De Cymru sy'n datblygu cofrestr o bobl risg uchel sydd ar goll. Dywedodd y rhanddeiliaid wrthym fod yr heddlu yn mynd allan i gwrdd â phobl ar y gofrestr honno yn rheolaidd, a all atal niwed pellach.

**15.** Fodd bynnag, cododd rhywun arall bryder ynghylch ychwanegu haenau a systemau ychwanegol at yr ymateb i gyfnodau o fynd ar goll. Pwysleisiodd y dylem fod yn gwneud y systemau gweinyddol mor gynnil â phosibl, gan roi mwy o amser i weithwyr cymdeithasol a gweithwyr eraill feithrin perthynas â phlant a'u teuluoedd.

### Cyfweliadau dychwelyd

**16.** Clywsom fod cyfweliadau dychwelyd yn ffordd bwysig o drafod y cyfnod o fynd ar goll gyda'r plentyn, er mwyn nodi unrhyw bryderon a arweiniodd at y

plentyn yn mynd ar goll a hefyd i gadarnhau beth ddigwyddodd yn ystod y cyfnod ei hun.

**17.** Cytunodd rhanddeiliaid y dylid cynnig cyfweliadau dychwelyd i blentyn bob amser ar ôl cyfnod o fynd ar goll. Mae hwn yn ofyniad statudol yn Lloegr. Dylai'r plentyn ddewis pwy sy'n cynnal y cyfweliad, a dylai'r plentyn gael yr hawl i wrthod cyfweliad os nad yw eisiau un. Ni ddylid cynnal unrhyw gyfweliad heb ganiatâd y plentyn.

**18.** Fodd bynnag, clywsom hefyd fod y dull o gynnal cyfweliadau dychwelyd yn amrywio'n fawr ar draws Cymru. Dywedodd rhai o'r rhanddeiliaid wrthym fod plant mewn gofal yn tueddu i gael cynnig cyfweliad dychwelyd yn fwy cyson na phlant nad ydynt mewn lleoliad gofal. Ni chynigir cyfweliad dychwelyd o gwbl i lawer o blant.

**19.** Clywsom hefyd fod gan wahanol ranbarthau ddulliau gwahanol o ymdrin â chyfweliadau dychwelyd. Mae'r cyfweliadau yn dda mewn rhai rhanbarthau ond yn wael mewn eraill, ac nid ydynt yn tueddu i ddigwydd o gwbl mewn ambell ranbarth.

**20.** Eglurodd rhanddeiliaid wrthym mai'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu sy'n comisiynu'r cyfweliadau dychwelyd mewn tri rhanbarth a hynny gan ddarparwyr annibynnol (Llamau neu NYAS). Ond mewn rhai rhanbarthau, cynhelir y cyfweliadau yn fewnol. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid ei bod yn bwysig bod plant yn cael y cyfle i siarad â gweithwyr proffesiynol annibynnol, yn hytrach na phobl sy'n gysylltiedig â gwasanaethau statudol.

**21.** Clywsom unwaith y bydd cyfweliad dychwelyd wedi'i gynnal, y dylid rhannu'r wybodaeth am y cyfweliad hwnnw â phartneriaid perthnasol. Dylai'r cyfweliadau gael eu cynnal yn gywir, gydag allbynnau wedi'u cofnodi ar gyfer unrhyw gamau dilynol. Nid ymarfer i roi tic mewn blwch ddylai'r cyfarfodydd hyn fod. Teimlai rhai rhanddeiliaid mai un peth pwysig a ddylai ddeillio o'r cyfweliadau dychwelyd yw bod y plentyn yn cael ei atgyfeirio at wasanaethau cymorth eraill, er enghraifft eiriolaeth annibynnol.

### Gwaith amlasiantaeth

**22.** Clywsom yn rheolaidd gan randdeiliaid fod gwaith amlasiantaeth yn hollbwysig wrth ymateb i gyfnodau o fynd ar goll.

**23.** Fodd bynnag, nid yw gwaith amlasiantaeth yn cael ei wneud yn gyson dda ar draws y wlad. Dylid cydweithio ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Ar hyn

o bryd, mae rhai awdurdodau lleol yn cydweithio, tra nad yw eraill yn gwneud hynny.

**24.** Clywsom am rai meysydd lle cynhelir cyfarfodydd strategaeth amlasiantaeth rheolaidd ar gyfer plant sydd ar goll (er enghraifft paneli camfanteisio, sy'n digwydd yn fisol mewn rhai ardaloedd).

**25.** Dywedodd rhanddeiliaid eraill wrthym nad yw asiantaethau (fel awdurdodau lleol a heddluoedd) yn cyfathrebu â'i gilydd yn ystod y cyfnod ataliol ynghylch plant sy'n wynebu risg. Roedd rhai rhanddeiliaid yn cytuno bod diffyg cyfathrebu rhwng asiantaethau weithiau yn golygu y gall plant a theuluoedd gael eu boddi gan ormod o weithwyr proffesiynol ar yr un pryd.

**26.** Roedd cytundeb cyffredinol y dylai'r asiantaethau sy'n gweithio i gefnogi plant sy'n mynd ar goll gael eu cyd-leoli, boed yn rhithwir neu yn y cnawd.

Clywsom y cynigion a ganlyn ar gyfer newid:

- Dylai'r diffiniad o gyfnod o fynd ar goll fod yn ddigon hyblyg i gynnwys amgylchiadau gwahanol plant a'r gwahanol risgiau y maent yn eu hwynebu.
- Dylai cyfweliad dychwelyd fod yn ofyniad statudol ar gyfer pob cyfnod o fynd ar goll. Dylai'r plentyn allu penderfynu pwy sy'n cynnal y cyfweliad dychwelyd, a dylai allbwn y cyfweliad dychwelyd gynnwys camau gweithredu a dylid gwneud gwaith dilynol arnynt.
- Dylai safonau ymarfer cenedlaethol nodi'n glir ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru ynghylch ymateb i gyfnodau o fynd ar goll, er mwyn sicrhau ymateb cyson ar draws awdurdodau lleol ac asiantaethau partner.
- Dylai Llywodraeth Cymru gasglu a chyhoeddi data dibynadwy, safonol a dilys am gyfnodau o fynd ar goll er mwyn deall maint a natur cyfnodau o fynd ar goll, gan ddefnyddio'r safonau ymarfer cenedlaethol i sicrhau dibynadwyedd data.
- Datblygu cofrestr o bobl risg uchel sydd ar goll, fel ffordd o gofnodi pryder am blant sy'n agored i niwed a sbarduno cymorth pellach.
- Dylai fod gwell cyfathrebu rhwng awdurdodau lleol, ysgolion, yr heddlu ac asiantaethau partner i rannu gwybodaeth ac annog ymyriadau ataliol.

## Plant sy’n destun camfanteisio troseddol

### Natur a graddfa

#### Diffinio Camfanteisio Troseddol ar Blant

**27.** Mynegodd nifer o weithwyr proffesiynol bryder nad oes diffiniad statudol ar gael o gamfanteisio’n droseddol ar blant. Gall hyn ddigwydd ar sawl ffurf wahanol, gan gynnwys 'llinellau cyffuriau', a bydd camfanteiswyr yn newid eu modelau camfanteisio i ymateb i newidiadau mewn dulliau plismona. Gall hyn gynnwys masnachu mewn plant ledled Cymru, a hyd yn oed ar draws ffiniau. Er enghraifft, dywedodd un rhanddeiliad wrthym am un person ifanc a gafodd ei dagio, ac a gafodd ei ddilyn. Aed â'r plentyn allan i'r môr, gan ddocio yn Lerpwl, yna cafodd ei olrhain yn ôl i ogledd Cymru.

#### Plant sy’n wynebu risg arbennig o gael eu troseddoli

**28.** Clywsom fod plant sy’n wynebu risg arbennig o gael eu troseddoli yn cynnwys:

- Plant sy'n mynd ar goll. Mae cyfnodau o fynd ar goll yn ddangosydd cynnar o risg o niwed pellach.
- Plant nad oes ganddynt fywyd cartref diogel. Weithiau gall y plant hyn deimlo’n fwy diogel mewn gangiau nag yn eu cartrefi, lle gallai fod llawer o drawma, neu allan ar y strydoedd heb amddiffyniad gan eu gang. Dywedodd un rhanddeiliad wrthym ei fod yn clywed gan fechgyn y byddai’n well ganddynt gael eu dal gan yr heddlu â chyllell na chael eu dal gan gang arall heb un.
- Plant nad ydynt mewn addysg, neu sy'n cael amserlen â llai o oriau. Clywsom fod yna amrywiaeth yn rhanbarthol o ran pa grwpiau o blant sy’n cael eu targedu gan gamddefnyddwyr. Er enghraifft, cafodd rhai myfyrwyr mewn colegau addysg bellach yng ngorllewin Cymru eu targedu, ac nid dyma’r lle y byddech yn disgwyl gweld achosion o gamfanteisio troseddol.
- Plant sydd â rhai anghenion cymorth ychwanegol, ond nad ydynt wedi'u nodi'n ffurfiol fel rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Mae bechgyn yn wynebu risg uwch o gael eu troseddoli na merched. Fodd bynnag, dywedodd rhai rhanddeiliaid wrthym fod merched yn

aml yn cael eu hanghofio. Er enghraifft, gall merched sydd mewn perthynas â bechgyn sydd wedi cael eu troseddoli eu hunain gael eu tynnu i mewn i weithgarwch troseddol.

- Mae plant sy'n cael eu magu mewn tlodi yn fwy agored i'r manteision ariannol posibl o gymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol.

**29.** Roedd rhai rhanddeiliaid yn cytuno bod plant iau yn dod yn fwy agored i gael eu troseddoli. Cyn hynny, 14 oedd yr ieuengaf y byddent yn ei weld yn ymwneud â gweithgarwch troseddol. Erbyn hyn, caiff plant mor ifanc ag 11 oed eu targedu.

**30.** Clywsom hefyd fod safbwyntiau traddodiadol ynghylch pa grwpiau o blant sy’n agored i gael eu troseddoli bellach wedi dyddio. Yn flaenorol, roedd bron pob un o’r plant hyn mewn gofal. Ar hyn o bryd, mae rhwng 60 a 70 y cant yn dod o gartref y teulu. Mae rhai yn blant cefnog.

**31.** Eglurodd rhai rhanddeiliaid wrthym fod rhai plant yn wynebu pwysau gan gyfoedion i fod yn rhan o gangiau. Mae'r plant hyn yn aml yn cael trafferth gwneud cysylltiadau, ac felly maent yn fwy agored i fywyd mewn gangiau. Dywedodd rhanddeiliaid eraill wrthym fod ennill arian yn aml yn gymhelliant allweddol i blant sy’n cymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol.

### Natur newidiol camfanteisio troseddol

**32.** Roedd consensws cyffredinol bod troseddoli yn broblem fwy nawr nag y bu erioed.

**33.** Clywsom gan wahanol randdeiliaid fod gangiau troseddol yn fwy soffistigedig nag erioed o’r blaen. Maent yn gwybod ble i ddod o hyd i blant sy’n agored i niwed, ac maent yn llwyddo i recriwtio: gangiau troseddol yw rhai o’r cyflogwyr mwyaf mewn rhai ardaloedd.

**34.** Soniodd rhai rhanddeiliaid am y nifer uchel o achosion o droseddoli ym Mhowys yn ôl ystadegau Llywodraeth Cymru. Roeddent yn teimlo bod hyn yn adlewyrchu gwell ymateb i droseddoli, gan gynnwys gwell hyfforddiant a gweithio amlasiantaethol i nodi plant yn gynharach.

**35.** Roedd rhanddeiliaid yn cytuno’n gyffredinol bod camfanteiswyr yn symud i ffwrdd o gartrefi gofal ac yn targedu plant mewn ysgolion, ac yn annog plant i nodi plant eraill sy’n agored i niwed trwy rwydweithiau ysgol.

**36.** Dywedodd rhai rhanddeiliaid wrthym fod achosion o gamfanteisio gan aelodau o'r teulu hefyd yn cynyddu. Er enghraifft, gallai hyn ddigwydd pan fydd rhiant yn cymryd rhan mewn gwerthu cyffuriau, yna'n defnyddio'r plentyn fel rhedwr.

**37.** Eglurodd un rhanddeiliad fod y risgiau i'r person ifanc unwaith y bydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol yn uchel. Gallent gael eu harestio gyda chyffuriau, arfau neu arian parod. Mae'r heddlu'n atafaelu'r asedau hynny, a hynny'n gwbl briodol, gan adael y plentyn â dyled i'r gang. Bydd y plentyn hwnnw wedyn mewn dyled i'r camfanteisiwr, mewn proses a elwir yn gaethiwed dyled. Dywedodd un rhanddeiliad wrthym y bydd camfanteiswyr weithiau hyd yn oed yn trefnu bod rhywun yn lladrata oddi ar eu rhedwyr eu hunain er mwyn creu dyled sy'n gwneud y plentyn yn gaeth i'w gang.

**38.** Dywedodd eraill wrthym, wrth i aelodau uwch gangiau gael eu carcharu, y bydd plant weithiau yn camu i fyny i fod yn gyflawnwyr eu hunain. Eglurodd un rhanddeiliad fod yr heddlu'n arfer galw'r plant hyn yn "ddioddefwyr alffa".

> *"Nid Fagin sydd reit ar y brig bob tro."*

**39.** Clywsom fod gangiau troseddol bellach yn fwy tebygol o wrthsefyll ymyriad gan asiantaethau. Bellach mae gan gamfamteiswyr fwy o arian, ac mae ganddynt enw da i'w gynnal. Nid ydynt o reidrwydd yn mynd i ffwrdd oherwydd ymyriad gan asiantaethau.

## Polisi ac arfer

### Ymateb i Gamfanteisio Troseddol ar Blant

**40.** Clywsom gan wahanol randdeiliaid nad yw gweithwyr proffesiynol yn aml yn deall beth yw ystyr Camfanteisio Troseddol ar Blant a beth yw'r arwyddion oherwydd nad oes diffiniad da ohono. Teimlai rhai rhanddeiliaid fod Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan yn nodi ymateb traddodiadol iawn, a bod angen ei ddiweddaru.

**41.** Roedd llawer o randdeiliaid o blaid datblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer lleihau achosion o droseddoli plant.

**42.** Dywedodd un rhanddeiliad wrthym fod Caerdydd wedi mabwysiadu'r model Camfanteisio Rhywiol ar Blant ar gyfer Camfanteisio Troseddol ar Blant. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus. Fodd bynnag, ni chlywsom farn gadarnhaol am y dulliau a ddefnyddiwyd gan wasanaethau statudol mewn ardaloedd eraill.

Dywedodd un gweithiwr proffesiynol wrthym fod yna naratif yng Ngogledd Cymru mai gangiau Lerpwl sy’n achosi problemau yn hytrach na phlant lleol. Nid yw hyn yn wir, ac mae'n adlewyrchu amharodrwydd i gydnabod y problemau.

**43.** Clywsom yn rheolaidd nad oes digon o wasanaethau cymorth i ddarparu cymorth hirdymor i blant sydd wedi cael eu troseddoli. Dywedodd un rhanddeiliad wrthym, pan fo’r heddlu yn nodi unigolion fel rhai sydd â bygythiad i fywyd, efallai y cânt eu hadleoli. Caiff y plentyn ei symud i awdurdod lleol arall, lle mae’n debygol o fod yn gymwys ar gyfer llety brys. Ond unwaith y caiff ei symud nid yw’n cael cefnogaeth ddigonol. Gall cyfryngau cymdeithasol dynnu sylw camfanteiswyr at leoliad newydd y plentyn. Gall y camfanteiswyr gysylltu â hwy, ac wedyn mae'r patrwm yn digwydd eto ac mae'r plentyn yn syrthio i'r un berthynas gamfanteisiol eto.

## Rôl y sector elusennol

**44.** Clywsom gan rai fod y sector elusennol yn arwain y ffordd o ran cefnogi plant sy’n agored i Gamfanteisio Troseddol ar Blant oherwydd eu bod yn credu nad oes rhwymedigaeth ar wasanaethau statudol i wneud hynny. Clywsom yn rheolaidd fod gan weithwyr ieuenctid yn arbennig y sgiliau i ymdrin â grwpiau o bobl ifanc sydd ar yr ymylon, ac y dylai’r gweithwyr fod allan ar y strydoedd yn cefnogi pobl ifanc wyneb yn wyneb.

**45.** Fodd bynnag, nododd eraill nad yw llawer o wasanaethau cymorth yn darparu cymorth hirdymor i blant, ac y gall gymryd hyd at chwe mis i sicrhau bod plentyn yn teimlo’n gyfforddus gydag oedolyn. Awgrymodd eraill efallai nad oedd gan rai staff sy’n gweithio i brosiectau’r sector elusennol ddigon o brofiad bob tro yn gweithio mewn lleoliadau risg uchel o’r fath. Dywedodd un rheolwr prosiect wrthym ei fod yn ceisio penodi gweithwyr prosiect sydd â phrofiad personol o faterion tebyg, a all helpu i chwalu’r rhwystrau gyda'r bobl ifanc.

**46.** Dywedodd un rhanddeiliad wrthym nad yw plant sy'n cael eu dal mewn gweithgarwch troseddol yn aml yn ymddiried mewn gweithwyr proffesiynol. Mae llawer o blant wedi cael eu siomi droeon, ac nid plant sydd wedi bod mewn gofal yn unig sy’n teimlo fel hyn.

**47.** Clywsom yn rheolaidd fod y sector elusennol yn aml yn gallu meithrin perthynas mwy cadarnhaol â phlant sy’n agored i niwed. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid fod yr heddlu weithiau’n ystyried plant fel troseddwyr, ond mai ymateb sy’n canolbwyntio ar y plentyn fyddai eu gweld fel dioddefwyr camfanteisio. Weithiau, nid yw plant hyd yn oed yn gwybod eu bod yn destun

camfanteisio. Fodd bynnag, roedd rhai rhanddeiliaid hefyd yn cydnabod y gall fod llinell denau rhwng plant sy'n ddioddefwyr, a bod yn gyflawnwyr eu hunain.

**48.** Clywsom hefyd gan wahanol weithwyr proffesiynol ei bod yn bwysig gweithio gyda'r teulu cyfan, a hyd yn oed y gymuned ehangach, i'w gwneud yn glir nad yw gweithgarwch troseddol yn llwybr arferol. Clywsom nad oedd llawer o rieni plant sy'n ymwneud â gweithgarwch troseddol hyd yn oed yn gwybod bod eu plant yn wynebu risg.

## Gwaith amlasiantaeth

**49.** Clywsom gan rai rhanddeiliaid nad yw rhannu gwybodaeth yn gymaint o broblem ag yr arferai fod, er ei fod yn parhau i fod yn her barhaus. Mynegwyd y ffaith bod yr heddlu yn arbennig wedi bod yn cydweithredu mwy. Fodd bynnag, nodwyd y ffaith y gall gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr iechyd, tai ac addysg fod yn anodd iawn.

**50.** Clywsom rywfaint o adborth cadarnhaol am Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid, a all fod yn gysylltiadau amhrisiadwy i feithrin perthynas â phobl ifanc, ac sy'n effeithiol wrth atgyfeirio plant at wasanaethau cymorth arbenigol lle bo angen.

**51.** Fodd bynnag, teimlai rhai rhanddeiliaid fod yr heddlu'n gweithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y plentyn nes eu bod yn troi'n 18 oed, ac ar yr adeg honno yr ymatebir iddynt mewn ffordd llawer mwy cosbol.

> *"Mae bron fel bod ganddyn nhw darged ar eu cefnau, a chyn gynted ag y maen nhw'n gwneud camgymeriad [pan maen nhw'n 18] maen nhw'n cael eu cloi i fyny."*

**52.** Yn eu barn hwy, dylai'r gwasanaeth plant gynnwys pobl ifanc hyd nes eu bod yn 21 oed. Clywsom fod plant sy'n nesáu at 18 oed sy'n wynebu risg o gael eu troseddoli yn hynod agored i niwed oherwydd eu profiadau bywyd a thrawma.

> *"Mae sgiliau bywyd ar waelod eu rhestr o flaenoriaethau."*

**53.** Roedd rhanddeiliaid yn cytuno'n gyffredinol bod rhywfaint o waith amlasiantaeth da yn digwydd, ond nd yw'r elfen gydweithio mor effeithiol ag y dylai fod. Dywedodd rhai wrthym nad yw'n ymddangos bod y byrddau diogelu rhanbarthol a chenedlaethol yn cyfarfod mor aml ag y dylent, a bod tystiolaeth anecdotaidd eu bod yn gwrthsefyll cymryd perchnogaeth o Gamfanteisio Troseddol ar Blant.

**54.** Dywedodd eraill wrthym fod cyfarfodydd amlasiantaeth pwysig yn cael eu cynnal – megis paneli risg uchel – ond nad yw pobl allweddol yn cael eu gwahodd, megis gweithwyr cymdeithasol y plentyn, na hyd yn oed teulu'r plentyn. Gan ddisgrifio pwy oedd yn bresennol, dywedwyd y canlynol:

> *"Pawb nad yw erioed wedi cwrdd â'r plentyn."*

**55.** Clywsom, yn y pen draw, mai un o ganlyniadau pwysig gwaith amlasiantaeth ddylai fod yr angen i ddarparu llwybr i bobl ifanc sy'n agored i niwed ddod o hyd i waith ac ennill arian yn gyfreithlon ac yn ddiogel.

### Ymateb Llywodraeth y DU

**56.** Eglurodd un rhanddeiliad fod ardaloedd yn cael eu hystyried naill ai'n ardaloedd 'mewnforio' neu'n ardaloedd 'allforio' yn bennaf ar gyfer gweithgarwch llinellau cyffuriau. Ystyrir Cymru fel ardal fewnforio. Dywedwyd wrthym fod arian y Swyddfa Gartref yn cael ei roi'n bennaf i ardaloedd allforio, sy'n golygu nad yw'r cymorth ariannol i fynd i'r afael â Chamfanteisio Troseddol ar Blant yng Nghymru yn gyson. Dywedwyd wrthym hefyd fod y mater yn fwy cymhleth na'r hyn y mae'r model ariannu hwn yn ei awgrymu, a bod gorgyffwrdd rhwng mewnforio/allforio a chysylltiad rhwng camfanteisio troseddol a chamfanteisio rhywiol.

**57.** Roedd rhai rhanddeiliaid yn cytuno nad yw Llywodraeth y DU yn deall maint y broblem. Roedd eraill yn teimlo bod Llywodraeth y DU yn ariannu ymyriadau yn Lloegr, ond yn gadael cymorth yng Nghymru i'r sector elusennol.

### Y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol

**58.** Gwneir atgyfeiriadau'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol i Swyddfa Gartref y DU i godi pryder am blant (ac oedolion) a allai fod yn ddioddefwyr caethwasiaeth fodern. Gwneir atgyfeiriadau gan sefydliadau 'ymatebwyr cyntaf' fel y'u gelwir, sy'n cynnwys awdurdodau lleol, heddluoedd a rhai sefydliadau trydydd sector. Pwrpas yr atgyfeiriad yw sicrhau bod yr unigolyn sy'n wynebu risg a'r rhai sy'n eu cefnogi yn cael cymorth priodol.

**59.** Clywsom gan rai rhanddeiliaid y gall penderfyniadau'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol  gymryd hyd at 2.5 mlynedd, er ei fod yn aml yn llawer cyflymach na hynny. Clywsom y gall y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol fod yn fecanwaith da ar gyfer helpu pobl ifanc i beidio â chael eu troseddoli, ond roedd barn hefyd y gall hefyd helpu camfanteiswyr. Mae camfanteiswyr yn gwybod ei fod yn digwydd, a byddant yn aml yn dweud wrth blant sy'n

ymwneud â gweithgarwch troseddol i ddweud eu bod yn destun camfanteisio, gan wybod y gallai hynny arwain at atgyfeiriad y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, a allai olygu na fydd y plentyn yn cael ei erlyn.

**60.** Dywedodd rhanddeiliad arall wrthym y gallai plant gael eu hatgyfeirio i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol , ond na chymerir unrhyw gamau, a'u bod wedyn yn dychwelyd i'w sefyllfa flaenorol lle maent yn destun camfanteisio.

Clywsom y cynigion a ganlyn ar gyfer newid:

- Creu strategaeth/cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Camfanteisio Troseddol ar Blant, yn debyg i'r hyn sydd eisoes ar waith ar gyfer Camfanteisio Rhywiol ar Blant.
- Creu set safonol o hyfforddiant ar gyfer yr holl ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i fod yn sail i'r strategaeth genedlaethol arfaethedig, a sicrhau cyllid er mwyn ei gyflwyno i bawb sy'n gweithio gyda phlant sydd wedi cael eu troseddoli.
- Gwella'r broses o gasglu data, dilysu a thryloywder am Gamfanteisio Troseddol ar Blant.
- Sefydlu timau camfanteisio penodol o fewn gwasanaethau cymdeithasol.
- Tarfu ar yr 'ysglyfaethwyr', yn hytrach na symud y plant sy'n destun y camfanteisio.
- Sefydlu Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth ledled Cymru a'u gwneud yn ganolfannau adeileddol ar gyfer cefnogi a gweithio gyda phobl ifanc a'u teuluoedd.
- Sicrhau bod byrddau diogelu lleol a chenedlaethol yn cyfarfod yn rheolaidd, yn cyhoeddi eu cofnodion a'u presenoldeb, a bod yn gyfrifol am Gamfanteisio Troseddol ar Blant.
- Atal ysgolion rhag gwahardd plant a threfnu eu bod yn dilyn amserlen â llai o oriau.

## Grwpiau eraill o blant sydd ar yr ymylon

### Camfanteisio Rhywiol ar Blant

**61.** Dywedodd rhanddeiliaid gwahanol wrthym fod plant sy'n mynd ar goll yn wynebu risg o fod yn destun Camfanteisio Rhywiol ar Blant. Esboniwyd bod y llinellau rhwng camfanteisio troseddol a chamfanteisio rhywiol yn fwy niwlog nag o'r blaen, ac nad yw bob amser yn wir mai bechgyn sy'n destun camfanteisio troseddol ac mai merched sy'n destun camfanteisio rhywiol.

**62.** Clywsom gan rai rhanddeiliaid am sut y gall camfanteisio rhywiol ddigwydd ar-lein, drwy ddyfais symudol. Gall hyn olygu ei bod yn anoddach i wasanaethau ymyrryd ac amddiffyn plant sy'n wynebu risgl.

## Ymateb i blant sydd ar yr ymylon: themâu cyffredin

### Gwasanaethau ataliol

**63.** Roedd cefnogaeth eang i wasanaethau mwy ataliol, fel gweithwyr ieuenctid. Dywedodd un rhanddeiliad wrthym fod adolygu achosion anodd fel "edrych ar ddamwain car yn digwydd yn araf bach". Dywedwyd wrthym fod y ffactorau risg yn glir i'w gweld, ond bod yr anochel yn digwydd heb ymyrraeth gynnar.

**64.** Eglurodd rhai rhanddeiliaid wrthym ei bod yn bosibl na fydd rhai plant yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ymyriad gan unrhyw wasanaethau statudol yn ystod y camau cynnar. Nid ydynt yn cael cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol ar yr adeg honno, ac nid ydynt wedi cyrraedd y safon cyfiawnder troseddol ychwaith, felly nid ydynt yn cael unrhyw gymorth. Ond nid yw hyn yn golygu nad ydynt yn cael eu paratoi gan gangiau troseddol.

**65.** Roedd rhai rhanddeiliaid yn cytuno na ddylai'r syniad o gael trothwyon sefydlog ar gyfer ymyriadau fod yn sail ar gyfer cymryd camau bob amser. Mae'n bwysicach ymyrryd yn gynnar a chynnal ymyriadau wedi'u targedu. Pwysleisiodd un rhanddeiliad fod angen i dimau partneriaeth cymunedol sylwi ar ymddygiad gwrthgymdeithasol, a defnyddio hynny i ddatblygu cysylltiadau o fewn y gymuned. Dylai hyn dynnu'r ffocws oddi ar waith adweithiol tuag at ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol.

**66.** Teimlai rhai rhanddeiliaid nad oes digon o wasanaethau ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau. Roeddent yn dadlau bod gormod o ffocws ar ymyrraeth gynnar: mae llawer o wasanaethau yn gweithio gyda phlant ifanc, a gall fod agwedd ei bod yn rhy hwyr unwaith y bydd plant yn destun camfanteisio.

**67.** Roedd rhai rhanddeiliaid yn cytuno bod y sector elusennol yn darparu cymorth ataliol hanfodol nad yw gwasanaethau statudol yn gallu ei ddarparu, a

phe bai'r cymorth hwnnw'n cael ei dynnu'n ôl byddai gwasanaethau cymdeithasol yn chwalu o dan y pwysau.

## Cymorth i rieni

**68.** Clywsom y gall fod ar deuluoedd ofn ymgysylltu â gwasanaethau statudol (er enghraifft, er mwyn adrodd bod eu plentyn ar goll, neu eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol) oherwydd eu bod yn ofni y bydd y plentyn yn cael ei roi mewn gofal.

**69.** Dywedodd un gweithiwr elusen wrthym mai un o'r rhesymau dros y diffyg ymddiriedaeth hwn yw nad yw staff gwasanaethau plant bob amser yn ymateb yn briodol - gallant fod yn feirniadol, neu gallant gael eu beio neu eu cyhuddo o esgeulustod. Ar sail hyn, maent yn argymell bod rhieni'n dechrau trwy gysylltu â'r sector elusennol os ydynt yn poeni.

**70.** Clywsom gan wahanol grwpiau o randdeiliaid fod bwlch ar gyfer rhieni sydd angen cymorth a chyngor, ond nad ydynt yn bodloni'r trothwy ar gyfer cymorth gan y gwasanaethau statudol.

**71.** Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylid buddsoddi mwy mewn eiriolaeth rhieni er mwyn rhoi llais i rieni sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol.

## Gwasanaethau cymdeithasol

**72.** Dywedodd rhanddeiliaid wrthym nad yw gwasanaethau cymdeithasol yn tueddu i fod â'r gallu i gefnogi pobl ifanc yn eu harddegau hŷn. Mae amser gweithwyr cymdeithasol yn canolbwyntio ar blant iau. Felly, gall pobl ifanc hŷn gael eu diystyru. Yna, pan fyddant yn cyrraedd 18 oed maent yn wynebu ymyl clogwyn o ran cymorth.

> *"Y rhai mwyaf bregus sy'n cael y lleiaf o gymorth."*

**73.** Clywsom wahanol safbwyntiau ynghylch sut y dylai gwasanaethau cymdeithasol ymateb i blant sydd ar yr ymylon a sut i'w cefnogi hwy a'u teuluoedd. Teimlai rhai rhanddeiliaid y dylid cael timau arbenigol o weithwyr cymdeithasol i weithio gyda'r plant mwyaf agored i niwed a risg uchel a'u teuluoedd. Teimlai eraill y dylai gweithwyr cymdeithasol ganolbwyntio ar eu dyletswyddau statudol, ac y dylai gweithwyr prosiect elusennol neu eraill arwain ar y gwaith sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd.

**74.** Fodd bynnag, roedd consensws cryf y dylai'r staff mwyaf profiadol a gwybodus fod yn gweithio gyda'r plant sydd fwyaf agored i niwed ac sydd ar yr ymylon.

**75.** Clywsom bryderon rheolaidd am y pwysau sy'n wynebu'r gweithlu gofal cymdeithasol. Dywedodd un rhanddeiliad wrthym fod yna ormod o weithwyr asiantaeth a'u bod, yn ei farn ef, yn gadael cyn gynted ag y bydd pethau'n mynd yn heriol gan adael i rywun arall geisio adfer y sefyllfa. Dywedodd eraill wrthym fod y trosiant uchel o staff gofal cymdeithasol yn ei gwneud yn anodd iawn sicrhau dilyniant i blant.

**76.** Roedd eraill yn argymell y dylai gweithwyr cymdeithasol gael eu neilltuo i deuluoedd, yn hytrach nag i bobl ifanc penodol. Esboniwyd nad oes cymorth yn cael ei roi i'r teulu yn aml os yw'r person ifanc yn mynd ar goll.

## Yr heddlu

Roedd rhai gweithwyr proffesiynol yn dadlau o blaid ailgyflwyno swyddogion yr heddlu penodedig ar gyfer amddiffyn plant. Esboniwyd bod y wybodaeth a'r arbenigedd y mae'r swyddogion wedi'u hennill yn mynd gyda hwy pan fyddant yn symud.

Teimlai eraill fod yr heddlu yn mabwysiadu dull tymor byr i ymateb i blant sydd ar yr ymylon. Er enghraifft, efallai y byddant yn eu symud allan o'r ardal gyfagos, ond nid ydynt yn mynd i'r afael â'r trawma sylfaenol sydd wrth wraidd ymddygiad y plentyn.

## Materion ynghylch y gweithlu

**77.** Cododd rhai rhanddeiliaid bryder am yr heriau sy'n wynebu sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant sydd ar yr ymylon o ran y gweithlu:

- Mae anawsterau wrth recriwtio pobl mewn rolau penodol.
- Mae llwythi gwaith gweithwyr cymdeithasol yn rhy uchel, ac mae'r stigma sydd ynghlwm wrth gofal cymdeithasol yn achosi problemau recriwtio a chadw.
- Trosiant staff uchel: mae'n amgylchedd heriol i weithio ynddo, gyda rhai achosion anodd iawn i'w trin.
- Nid yw staff yn cael eu dathlu am eu gwaith.

- Mae cyflog staff sy'n gweithio gyda phlant sydd ar yr ymylon yn rhy isel, yn enwedig i weithwyr ieuenctid a gweithwyr elusennol. Dywedodd un rhanddeiliad wrthym y gallwch ennill mwy mewn archfarchnad na'n gweithio gyda phlant sy'n agored i niwed.

**78.** Clywsom fod staff sy'n gweithio gyda phlant sydd wedi cael eu troseddoli yn wynebu rhai risgiau gwirioneddol. Dywedodd rhai rhanddeiliaid wrthym eu bod yn gwybod am staff y mae camfanteiswyr wedi eu dilyn. Dywedodd eraill fod gweithwyr cymorth yn gwneud llawer o waith ar eu pen eu hunain, ac yn aml byddant yn deall llawer am y gangiau y mae'r bobl ifanc yn ymwneud â hwy. Mae hyn yn golygu eu bod yn wynebu risg.

## Cyllid

**79.** Mynegodd nifer o randdeiliaid bryder ynghylch cyllid, a bod prinder cyllid yn gallu effeithio ar barhad gwasanaeth, sydd yn ei dro yn effeithio ar gadw staff. Clywsom fod cysondeb yn wirioneddol bwysig ar gyfer gweithio gyda phlant sydd ar yr ymylon.

**80.** Eglurodd rhanddeiliaid eraill fod ganddynt gyllid ar gyfer prosiect, ond nad oes ganddynt y gallu i ymdrin â'r holl atgyfeiriadau a gânt ar ôl sefydlu'r prosiect.

**81.** Roedd rhai gweithwyr proffesiynol yn achwyn am y diffyg mannau adeileddol iddynt weithio gyda phlant sy'n agored i niwed. Clywsom yr arferai fod tua 25 o ganolfannau ieuenctid yng Nghaerdydd ond mai dim ond tua phump sydd erbyn hyn. Mae'r plant a arferai gael eu hamddiffyn gan y clybiau ieuenctid hynny bellach yn agored i niwed. Teimlai un gweithiwr proffesiynol fod lefel troseddau ieuenctid yn is pan oedd mwy o glybiau ieuenctid ar agor:

> *"Roedd gofyn i ni brofi gwerth ein gwaith ieuenctid, a doedden ni ddim yn gallu. Ond mae'r gwerth hwnnw yn amlwg ar ôl iddo fynd."*

**82.** Dywedodd rhanddeiliaid eraill wrthym nad oes ganddynt arian i wneud gweithgareddau gyda phlant, na hyd yn oed i helpu plant i fwyta'n dda a gofalu amdanynt eu hunain.

## Diogelu cyd-destunol

**83.** Roedd un rhanddeiliad o blaid symud oddi wrth asesiadau plant unigol a thuag at asesiadau amlasiantaethol cyd-destunol, a fyddai'n nodi ardaloedd a chymunedau sy'n wynebu risg a sut y gellir mynd i'r afael â'r risg honno mewn

ffordd gyfannol. Fodd bynnag, mynegodd rhanddeiliad arall bryder y gall diogelu cyd-destunol greu llwyth gwaith a'i gwneud yn anoddach i weithwyr cymdeithasol ac ymarferwyr eraill ddatblygu perthynas â'r plentyn a'i deulu.

Clywsom y cynigion a ganlyn ar gyfer newid:

- Buddsoddi mewn grwpiau cymorth cymunedol a gwaith ieuenctid i gefnogi teuluoedd ac atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu.
- Darparu cyllid cyson ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant sy'n agored i niwed, i wreiddio gwasanaethau ac adeiladu perthynas effeithiol gyda phlant a'u teuluoedd.

# 2. Plant sy'n agored i gael eu gwthio i'r ymylon

## Plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal

**84.** Clywsom fod prinder sylweddol o leoliadau maeth a gofal preswyl o ansawdd uchel ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae hyn yn arwain rhai plant at symud yn ôl i gartref eu teulu, sy'n golygu eu bod yn wynebu risg o drawma neu i gael eu cam-drin unwaith eto. Dywedodd un rhanddeiliad wrthym fod prinder lleoliadau o ansawdd uchel ar gyfer plant mewn gofal yn golygu bod rhai plant yn cael eu rhoi mewn Airbnb, a bod rhai o'r plant sydd fwyaf agored i niwed yn cael eu lleoli yno gyda staff i'w cefnogi yn hytrach nag mewn llety priodol.

**85.** Dywedodd un rhanddeiliad wrthym nad ydym yn diwallu anghenion plant yn y system ofal yn ddigon cynnar. Yn sgil hyn, cânt eu hamddifadu o'u rhyddid neu maent yn destun camfanteisio.

**86.** Siaradodd eraill am heriau o ran darparu cymorth i blant mewn gofal sy'n cael eu symud rhwng awdurdodau lleol. Mae rhai prosiectau yn dibynnu ar ardal, ac efallai na fyddant yn gallu cyrraedd y plentyn sydd yn ei ardal newydd.

**87.** Eglurodd un rhanddeiliad fod y rhai sy'n gadael gofal yn arbennig o agored i niwed, er gwaethaf y ffaith bod gwasanaethau statudol yn parhau i ymgysylltu â hwy ar ôl troi'n 18 oed. Unwaith y byddant yn 18 oed, cânt eu symud o unedau diogel, ac mae diffyg cefnogaeth iddynt bryd hynny. Clywsom hefyd fod rhywfaint o bryder am y cynllun peilot incwm sylfaenol, a phobl ifanc a allai fod mewn sefyllfa fregus oherwydd yr arian y maent yn ei gael yn rheolaidd gan Lywodraeth Cymru. Teimlent nad oedd digon o waith wedi'i wneud i nodi a chefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed sy'n gadael gofal ac sydd â hawl i daliadau rheolaidd o dan y cynllun peilot.

**88.** Dywedodd rhai rhanddeiliaid wrthym y dylid annog mwy o sefydliadau i fabwysiadu'r Siarter Rhianta Corfforaethol i annog ymateb cymorth mwy cadarn i blant sydd yn y system ofal.

## Plant nad ydynt mewn lleoliad addysg

**89.** Clywsom dro ar ôl tro fod presenoldeb yn yr ysgol, a bod ar gofrestr yr ysgol, yn ffactor amddiffynnol hollbwysig i bobl ifanc sy'n agored i niwed.

**90.** Dywedodd gweithwyr proffesiynol rheng flaen gwahanol wrthym *nad oedd unrhyw un* o'r plant sy'n agored i niwed y maent yn gweithio gyda hwy yn

mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Clywsom nad yw gwersi gartref, y dylid eu darparu i lawer o blant nad ydynt yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, bob amser yn cael eu darparu, ac weithiau nad yw ysgolion yn deall y risgiau o wahardd disgyblion. Dywedodd rhai rhanddeiliaid wrthym fod llawer mwy o blant nad ydynt mewn addysg nag y mae pobl yn ei feddwl. Mae'n bosibl na fyddai gwasanaethau statudol yn gwybod am blant sydd wedi'u gwahardd, er enghraifft, fel y byddai plant mewn gofal. Mae hyn yn eu gwneud yn arbennig o agored i gael eu gwthio i'r ymylon.

**91.** Clywsom gan un gweithiwr proffesiynol fod plant yn cael cam mawr gan wasanaethau addysg, ac nad yw hyd yn oed darpariaeth arbenigol yn rheoli ymddygiad plant yn effeithiol, a bod plant yn cael eu gwahardd yn y pen draw – gan olygu eu bod yn wynebu risg o gael eu gwthio i'r ymylon. Roedd eraill yn cytuno, ac yn awgrymu mai diffyg hyfforddiant ac ymwybyddiaeth oedd yn gyfrifol am hyn.

**92.** Roedd un rhanddeiliad hyd yn oed yn dadlau y gall cynnwys staff ysgol waethygu problemau. Er enghraifft, awgrymwyd os yw ysgol yn honni bod plentyn yn ymwneud â gwerthu cyffuriau, y gall y plentyn hwnnw gael ei 'daflu allan o'r ysgol', a all arwain at y teulu'n chwalu.

**93.** Clywsom gan rai fod y pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd a blwyddyn 11 yn bwyntiau ffocws allweddol ar gyfer plant sy'n agored i niwed, ond nad oes gan ysgolion y capasiti/sgiliau i ddarparu'r cymorth arbenigol sydd ei angen i helpu'r plant hynny. Clywsom alwadau i sicrhau bod mentoriaid medrus yn cael eu lleoli mewn ysgolion i ddarparu'r cymorth hwnnw.

**94.** Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu polisïau dim gwahardd ar gyfer ysgolion er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn elwa ar amgylchedd ysgol amddiffynnol. Siaradodd rhai rhanddeiliaid yn gadarnhaol am bolisi dim gwahardd Cyngor Southwark, ac awgrymwyd y byddai cael rhywbeth felly yng Nghymru yn gosod naws wahanol i ddisgyblion ac athrawon.

## Plant sy'n dioddef o iechyd meddwl gwael

**95.** Dywedodd un rhanddeiliad wrthym am restrau aros hir am gymorth i blant sydd wedi bod yn destun trais yn ymwneud â gangiau. Dywedwyd wrthym fod cymorth meddygol ar gael ar unwaith, ond y gall adferiad meddwl gymryd mwy o amser ac nad oes unrhyw wasanaethau i gefnogi'r adferiad hwnnw.

**96.** Clywsom gan rai o'r rhanddeiliaid fod llawer o'r plant y maent yn gweithio gyda hwy yn dioddef o anhwylder straen wedi trawma (PTSD), ac yn dod yn or-wyliadwrus oherwydd y trawma y maent wedi'i brofi. Dywedodd eraill wrthym mai ychydig iawn o gymorth sydd ar gael i blant sydd wedi dechrau defnyddio cyffuriau, neu sydd wedi bod yn destun camfanteisio gan gangiau. Mae angen cymorth iechyd meddwl arnynt gan ddefnyddio dull anghlinigol. Mae'n bwysig cael ymgysylltiad gwirfoddol er mwyn osgoi diwylliant o feio, nad yw'n effeithiol.

**97.** Dadleuodd rhai rhanddeiliaid dros wasanaethau allgymorth mewn clinigau STD ac ati i gyrraedd merched. Daw pobl i'r gwasanaethau iechyd pan nad ydynt yn mynychu unrhyw beth arall. Gellir gweld gweithwyr iechyd proffesiynol fel gweithwyr proffesiynol y gellir ymddiried ynddynt a gallant gynyddu cynrychiolaeth ar sail rhywedd.

## Plant niwroamrywiol a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol.

**98.** Cododd nifer o'r gweithwyr proffesiynol y buom yn siarad â hwy bryder bod plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu eu gwthio i'r ymylon yn anghymesur gan gymdeithas.

Clywsom y cynigion a ganlyn ar gyfer newid:

- Buddsoddi mewn ymyrraeth gynnar ar gyfer plant sydd â phrofiad o ofal.
- Annog mwy o gyrff cyhoeddus i lofnodi Siarter Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru.
- Gweithredu polisi dim gwahardd ledled Cymru.
- Sefydlu gwasanaethau allgymorth mewn clinigau STD.
- Gosod mentoriaid medrus, sy'n arbenigo mewn gweithio gyda phlant sy'n agored i niwed ac sydd ar y ymylon, mewn ysgolion i roi cymorth i blant.

# Atodiad A: Rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau i randdeiliaid

## 15 Mai 2024 (plant sydd ar goll)

| Sefydliad | Enw/Enwau |
|---|---|
| **Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol** | Rachel Hawkins<br>Chris Frey-Davies |
| **Gweithredu dros Blant** | Sharon Maciver<br>Stuart Barter<br>Gary Bowen-Thomson<br>Lee Bridgeman<br>Hefin Daniels<br>Wynne Randles |
| **CASCADE** | Nina Maxwell |
| **Cymdeithas y Plant** | Tom Davies |
| **GISDA** | Lyndsey Thomas |
| **Llamau** | Yvonne Connolly<br>Emma Evans |
| **Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS)** | Sharon Lovell<br>Johanne Jones<br>Phoebe White |
| **Ymddiriedolaeth St Giles** | Lee Dutton<br>Evan Jones |

## 19p Mehefin 2024 (plant sy'n cael eu troseddoli)

| Sefydliad | Enw/Enwau |
|---|---|
| **Gweithredu dros Blant** | Lee Bridgeman<br>Gary Bowen Thomson |
| **Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol** | Anneka Bartlett<br>Rachel Hawkins<br>Chris Frey-Davies<br>Toni Andrews |

| Sefydliad | Enw/Enwau |
|---|---|
| **Barnardo's** | Leah Ward |
| **CASCADE** | Nina Maxwell |
| **Comisiynydd Plant Cymru** | Rachel Thomas |
| **Cymdeithas y Plant** | Tom Davies<br>Holly Sayce |
| **Cyngor Sir Powys** | Ruth Cross |
| **Tîm Diogelu'r Glasoed rhag Camfanteisio (SAFE) Cyngor Dinas Caerdydd** | Steph Mckay<br>Gabi Bazzerra |
| **Llamau** | Emma Evans |
| **Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS)** | Rob Hill<br>Sarah Jane Davies<br>Phoebe White |
| **Ymddiriedolaeth St Giles** | Lee Dutton<br>Evan Jones |
| **VFCC** | Francesca Pritchard |